# Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru

## Canllawiau'r Cynllun Atebolrwyddau Presennol

**Dyddiad Cyhoeddi: 20 Gorffennaf 2020**

Partneriaeth Cydwasanaethau
Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg
Shared Services Partnership
Legal and Risk Services

## Cynnwys


1. Cyflwyniad ........................................................................................ 1
2. Fframwaith y Cynllun.............................................................. 2
3. Cwmpas y Cynllun - AtebolrwyddauPresennol.......................................... 3
4. Personau Cymwys o dan y Cynllun........................................................ 6
5. Lefel yr Indemniad o dan y Cynllun................................................ 7
6. Sut i gysylltu â Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC? ............................................................ 9
7. Hawliadau presennol yn trosglwyddo i Wasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC o Sefydliad Amddiffyn Meddygol............ 9
8. Rhoi gwybod am atebolrwydd newydd cyn Ebrill 2019 i Wasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC ............... 10
9. Beth fydd yn digwydd ar ôl cyflwyno hawliad i Wasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC?11
10. Ymdrin â Hawliadau / Gwasanaethau Cyfreithiol.........................................................12
11. Gwrthdaro Buddiannau / Cyfrinachedd................................................... 14
12. Cwynion.......................................................................................... 15
13. Diogelu Data....................................................................................... 16
14. Rheoli cwynion o dan Gweithio i Wella......................................................... 16
15. Defnyddio Gweithio i Wella i reoli hawliadau................................................................. 17


## 1) Cyflwyniad

a) Sefydlodd Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cynllun Atebolrwyddau Presennol ar gyfer Ymarfer Cyffredinol) (Cymru) 2020 y Cynllun Atebolrwyddau Presennol ar gyfer Ymarfer Cyffredinol ("y Cynllun"). Nid oes unrhyw beth yn y canllawiau hyn yn ceisio cyfyngu, diwygio nac ehangu darpariaethau na chwmpas y Rheoliadau na thelerau unrhyw gytundeb Atebolrwyddau Presennol a ddaeth i ben rhwng sefydliad amddiffyn meddygol ("MDO") a Gweinidogion Cymru.

b) Bydd Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC yn gweithredu ac yn gweinyddu'r Cynllun ar ran Gweinidogion Cymru.

c) O dan y Cynllun, caiff Gweinidogion Cymru ddarparu indemniad dewisol ar gyfer hawliadau cymwys. Bydd Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC (ar ran Gweinidogion Cymru) yn ystyried indemnio hawliadau esgeulustod clinigol a wneir yn erbyn meddyg teulu ac eraill sy'n gweithio mewn lleoliad meddyg teulu o ganlyniad i weithred neu anwaith a ddigwyddodd cyn 1 Ebrill 2019 ac sy'n arwain at atebolrwydd camweddus mewn cysylltiad â darparu gwasanaethau meddygol sylfaenol a gwasanaethau GIG eraill a ddarperir gan bractis cyffredinol.

d) Dim ond i 'Bersonau Cymwys' y mae'r Cynllun ar gael (fel y nodir isod) a bydd ond yn ymdrin ag 'Atebolrwyddau Presennol' (fel y nodir isod).

e) Yr 'Atebolrwyddau Presennol' a gwmpesir gan y Cynllun, yn bennaf, fydd atebolrwyddau esgeulustod clinigol. Mae cwmpas y Cynllun wedi'i esbonio'n fanylach isod.

f) Dim ond pan fydd trafodiad i drosglwyddo'r cyfrifoldeb cyfreithiol i ystyried indemnio hawliadau Atebolrwydd Presennol o sefydliad amddiffyn meddygol i Weinidogion Cymru wedi'i gwblhau, ac o ddyddiad penodol y cytunwyd arno fel rhan o drafodiad o'r fath, fydd y Cynllun yn berthnasol. Ar gyfer MDDUS, 30 Mehefin 2020 fydd hyn. Ar gyfer MPS, 1 Ebrill 2021 fydd hyn.

g) Ni ddylid ystyried bod y Cynllun mewn unrhyw ffordd yn creu neu'n awgrymu contract neu gontract yswiriant. Nid yw'n orfodol cael indemniad o dan y Cynllun.

h) Gall Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC ddiweddaru a diwygio Canllawiau'r Cynllun fel sy'n briodol.

i) Mae'r Cynllun yn cael ei lywodraethu gan gyfraith Cymru a Lloegr.

## 2) Fframwaith y Cynllun

a) Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC yw gweithredwyr y Cynllun ar ran Gweinidogion Cymru ac maent yn darparu gwasanaethau trin hawliadau a chyfreithiol i'r Cynllun er mwyn rheoli, amddiffyn a hwyluso trefniadau indemniad o dan y Cynllun.

b) Pan fydd cyfreithwyr allanol yn cael eu cyfarwyddo mewn perthynas â hawliad sy'n dod o fewn cwmpas y Cynllun, byddant yn cael eu cyfarwyddo gan Wasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC. Bydd yr holl gyfarwyddiadau o'r fath yn unol â thelerau cytundeb lefel gwasanaeth yr ymrwymwyd iddo rhwng Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC fel gweithredwyr y Cynllun a'r cyfreithwyr allanol.

c) Lle mae Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg yn darparu'r gwasanaethau cyfreithiol, darperir y gwasanaethau cyfreithiol hynny o dan y Cynllun.

d) Gelwir y personau hynny sy’n ymwneud â phractis cyffredinol ac sy’n gymwys i gael indemniad o dan y Cynllun yn ‘Bersonau Cymwys’.

e) Nid yw’n orfodol i Bersonau Cymwys ddefnyddio'r Cynllun. Fodd bynnag, mae'r indemniad a ddarperir gan y Cynllun ar gael i'r rhai sy'n gymwys o dan y Rheoliadau yn unig ac yn unol â Chanllawiau’r Cynllun hyn.

f) Os bydd hawliad yn cael ei ddwyn yn erbyn Person Cymwys (hwn fydd y diffynnydd a enwir yn y rhan fwyaf o achosion), a bod yr hawliad hwnnw o fewn cwmpas y Cynllun, gall y Person Cymwys ofyn am indemniad o dan y Cynllun.

g) Trwy ofyn i Wasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC ystyried darparu indemniad o dan y Cynllun, mae Personau Cymwys yn cytuno eu bod wedi darllen a deall rheolau'r Cynllun fel y'u nodir yn y Rheoliadau a'r canllawiau hyn.

h) Wrth geisio indemniad o dan y Cynllun, bydd y Person Cymwys yn cytuno i Wasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC a / neu unrhyw gyfreithiwr penodedig allanol dderbyn cyflwyno achos ar eu rhan.

## 3) Cwmpas y Cynllun - Atebolrwyddau Presennol



Lexcel Practice Management Standard Law Society Accredited
Customer Service Excellence / Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth i Gwsmeriaid CSE

a) Bydd Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC yn asesu a yw unrhyw hawliad o fewn cwmpas y Cynllun ai peidio, yn unol â'r Rheoliadau.

b) Gall unrhyw indemniad a ddarperir o dan y Cynllun fod ar gyfer 'Atebolrwyddau Presennol' yn unig. Mae'r rhain yn atebolrwyddau posibl a gysylltir â chi fel Person Cymwys o ganlyniad i weithred neu anweithred gennych chi sy'n gyfystyr â thorri dyletswydd cyn 1 Ebrill 2019. Nid yw'r cynllun yn ymdrin â phob achos o dorri dyletswydd. Dim ond toriadau sy'n deillio o atebolrwyddau camweddus sy'n cael eu cynnwys. Atebolrwyddau esgeulustod clinigol yn bennaf fydd y rhain.

c) Nid yw'r Cynllun yn cwmpasu'r canlynol (nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr ac felly os ydych yn ansicr, dylech gysylltu â'ch sefydliad amddiffyn meddygol neu Wasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC;

i) Gwaith preifat / Gwaith y tu allan i'r GIG / Gwaith y tu allan i gytundeb Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol

ii) Datgeliad o geisiadau am gofnodion gan gleifion (oni bai bod hawliad am iawndal hefyd)

iii) Cwynion nad ydynt yn gysylltiedig ag esgeulustod clinigol

iv) Atgyfeiriadau a Gwrandawiadau'r Rheoleiddiwr (y Cyngor Meddygol Cyffredinol / y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth / y Cyngor Proffesiynau Gofal ac Iechyd)

v) Anghydfodau rheoleiddio

vi) Achos Troseddol

vii) Ymchwiliadau Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (HIW)

viii) Cynrychiolaeth mewn cwestau

ix) Camau disgyblu yn eich erbyn neu yn erbyn eich staff

x) Dyfarniadau a wnaed gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (oni bai bod gorgyffwrdd ag iawndal ar gyfer anafiadau yn sgil esgeulustod clinigol)

xi) Taliadau ex-gratia

xii) Hawliadau am ddifenwi

xiii) Torri'r Rheoliadau Diogelu Data

xiv) Hawliadau atebolrwydd cyflogwyr

xv) Hawliadau atebolrwydd cyhoeddus

xvi) Hawliadau atebolrwydd Eiddo neu'r Deiliaid

xvii) Hawliadau deintyddiaeth gofal sylfaenol

xviii) Hawliadau deintyddiaeth gofal cymunedol

xix) Hawliadau fferyllfeydd cymunedol

xx) Hawliadau optometreg

d) I ddod o fewn cwmpas y Cynllun, rhaid i'r ddeddf sy'n cyfateb i Atebolrwydd Presennol;

i) Fod wedi digwydd cyn 1 Ebrill 2019,

ii) Wedi bod yn gysylltiedig â'ch darpariaeth neu'ch trefniadau ar gyfer darparu neu gynnal gweithgaredd mewn cysylltiad â;

(1) Gwasanaethau meddygol sylfaenol - h.y. gwasanaethau y mae'r Bwrdd Iechyd Lleol o dan ddyletswydd i'w sicrhau yn unol ag adran 41 o Ddeddf GIG (Cymru) 2006,

(2) Gwasanaethau iechyd ategol - h.y. gwasanaethau, ac eithrio gwasanaethau meddygol sylfaenol, a ddarperir fel rhan o'r gwasanaeth iechyd gan berson a oedd, ar adeg darparu'r gwasanaethau, yn—

(a) Gontractwr Rhan 4, h.y. person sy'n darparu, neu'n gwneud trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau meddygol sylfaenol yn unol â threfniant cytundebol (gan gynnwys trefniant cytundebol neu gytundeb sy'n rhan o set o drefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau yn ogystal â'r gwasanaethau meddygol sylfaenol) a wneir gyda'r person hwnnw o dan un o ddarpariaethau canlynol Deddf 2006—

(i) adran 41(2) (b) (gwasanaethau meddygol sylfaenol),
(ii) adran 42(1) (contractau gwasanaethau meddygol cyffredinol: rhagarweiniol), neu
(iii) adran 50 (trefniadau gan Fwrdd Iechyd Lleol ar gyfer darparu gwasanaethau meddygol sylfaenol); yr oedd ei brif weithgaredd yn cynnwys darparu gwasanaethau meddygol sylfaenol,

(b) is-gontractwr gwasanaethau meddygol sylfaenol yr oedd ei brif weithgaredd yn cynnwys darparu gwasanaethau meddygol sylfaenol, neu

(c) unigolyn sy'n darparu'r gwasanaethau o dan drefniant contractiol gyda'r naill neu'r llall uchod.

iii) arwain, neu wedi arwain at anaf neu golled bersonol i'r claf / trydydd parti, ac

iv) roedd yn weithred neu'n anweithred ar ran y Person Cymwys neu'n weithiwr i'r Person Cymwys, yn gysylltiedig â diagnosis o salwch neu ofal neu driniaeth unrhyw unigolyn.

## 4) Personau Cymwys o dan y Cynllun

a) Bydd Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC yn asesu a ydych chi'n Berson Cymwys yn unol â'r Rheoliadau.

b) Er mwyn bod yn Berson Cymwys a bod ag indemniad a ddarperir gan y Cynllun, mae angen cwrdd â meini prawf penodol;



Lexcel Practice Management Standard Law Society Accredited
Customer Service Excellence CSE

i) Mae'n rhaid eich bod chi (neu'r person a ymgysylltodd â chi / a'ch awdurdododd) wedi bod yn aelod o Sefydliad Amddiffyn Meddygol ar yr adeg y digwyddodd y weithred neu'r anweithred honedig a arweiniodd at Atebolrwydd Presennol posibl, ac;

ii) Ar y pryd, roeddech yn;

(1) gontractwr Rhan 4 (fel y disgrifir yn adran 3(d) uchod) neu,
(2) is-gontractwr gwasanaethau meddygol sylfaenol (fel y disgrifir yn adran 3(d) uchod), neu
(3) unigolyn sy'n darparu gwasanaethau iechyd ategol (fel y disgrifir yn adran 3(d) uchod).

c) Yn ogystal, rhaid bod eich Sefydliad Amddiffyn Meddygol wedi dod i gytundeb â Gweinidogion Cymru ar gyfer trosglwyddo cyfrifoldeb cyfreithiol i ystyried indemnio Atebolrwyddau Presennol eu haelodau i Weinidogion Cymru, a;

d) Mae'r trafodiad sy'n nodi'r dyddiad y mae'r trosglwyddiad cyfreithiol ffurfiol o gyfrifoldeb am hawliadau Atebolrwydd Presennol i Weinidogion Cymru wedi'i gwblhau. Ar gyfer MDDUS, 30 Mehefin 2020 fydd hyn. Ar gyfer MPS, 1 Ebrill 2021 fydd hyn.

e) Lle nad yw'r Person Cymwys yn bresennol mwyach (h.y. wedi marw neu fod y sefydliad cyfreithiol perthnasol wedi dod i ben), bydd Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC yn asesu cymhwysedd o dan y cynllun fel ar yr adeg y cronnwyd yr atebolrwydd presennol posibl.

## 5) Lefel yr Indemniad o dan y Cynllun

a) Bydd Atebolrwyddau Presennol hynny'r Personau Cymwys sydd o fewn cwmpas y cynllun yn elwa ar indemniad heb dâl-dros-ben a heb derfyn ariannol (yn amodol ar gyfanswm yr arian sydd ar gael ar gyfer y cynllun). Mae hyn yn cynnwys (lle bo hynny'n briodol) talu iawndal y cytunwyd arno neu a ddyfarnwyd, ffioedd yr Adran Gwaith a Phensiynau / y GIG, costau cyfreithiol andwyol a chostau cyfreithiol a gronnwyd gan y Cynllun wrth amddiffyn hawliad.



Lexcel Practice Management Standard Law Society Accredited
CUSTOMER SERVICE EXCELLENCE RHAGORIAETH MEWN GWASANAETH I GWSMERIAID CSE

b) Fodd bynnag, mae indemniad yn ddewisol a gellir ei gyfyngu, ei atal neu ei dynnu'n ôl mewn achosion o'r fath gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol;

   i) lle mae'r Person Cymwys wedi cyfaddef atebolrwydd, heb gael cydsyniad ysgrifenedig yn gyntaf gan Wasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC,

   ii) lle mae atebolrwydd wedi'i bennu gan lys mewn achos a gynhaliwyd gan y Person Cymwys, neu ar ei ran, ac eithrio mewn ymgynghoriad â Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC,

   iii) lle nad yw'r Person Cymwys wedi cydymffurfio ag amod a osodwyd gan Wasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC mewn perthynas â hawliad,

   iv) lle mae'r Person Cymwys yn methu â gwneud taliad a, heb gael cydsyniad ysgrifenedig yn gyntaf gan Wasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC, mae'r Person Cymwys yn cytuno i:

      (1) fod yn rhwym wrth benderfyniad unrhyw berson ynghylch gwneud taliad mewn perthynas ag atebolrwydd perthnasol y mae'r Cynllun yn gymwys iddo, neu

      (2) wneud unrhyw daliad arall mewn perthynas â'r atebolrwydd perthnasol, ac eithrio yn ystod achos cyfreithiol neu'n cytuno i wneud taliad o ganlyniad i setliad achos cyfreithiol,

   v) byddai'r taliad yn swm llai nag unrhyw swm a nodwyd gan Weinidogion Cymru fel yr isafswm sy'n daladwy o dan y Cynllun mewn perthynas ag atebolrwydd perthnasol (nid oes isafswm ar hyn o bryd), neu

   vi) mae'r Person Cymwys wedi methu (yn llawn neu'n rhannol) â darparu'r lefel ofynnol o gymorth, dogfennaeth, gwybodaeth y gofynnwyd amdani gan y Cynllun neu wedi methu â chydymffurfio â hysbysiad o dan reoliad 11 o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cynllun Atebolrwyddau Presennol ar gyfer Ymarfer Cyffredinol) (Cymru) 2020



Lexcel Practice Management Standard Law Society Accredited
CUSTOMER SERVICE EXCELLENCE RHAGORIAETH MEWN GWASANAETH I GWSMERIAID CSE

vii) mae'r Person Cymwys wedi methu â rhoi gwybod i Wasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC am gais newydd cyn Ebrill 2019 cyn gynted ag yr oedd yn rhesymol ymarferol.

c) Ni fwriedir i unrhyw beth yn y Cynllun fynd yn groes i ddyletswyddau cyfreithiol neu rwymedigaethau proffesiynol eraill y gall Personau Cymwys fod yn ddarostyngedig iddynt. At hynny, ni fydd indemniad yn cael ei dynnu oherwydd bod ymarferydd wedi cymryd camau rhesymol i gydymffurfio â'i rwymedigaethau moesegol, proffesiynol neu statudol.

d)

e) Pe bai gan Berson Cymwys hawl i unrhyw ffynhonnell indemniad arall mewn perthynas ag Atebolrwydd Presennol (megis polisi yswiriant), dylid gwneud yr indemniad hwnnw'n hysbys a'i gymhwyso i'r hawliad oni bai bod Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC yn penderfynu fel arall.

## 6) Sut i gysylltu â Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC?

a) Os oes gennych unrhyw bryderon ynghylch a yw hawliad yn rhan o'r Cynllun, p'un a ydych chi'n Berson Cymwys neu p'un a ddylid rhoi gwybod am fater, cysylltwch â Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC trwy:

i) E-bost – ELS@wales.nhs.uk – gan egluro sail eich ymholiad a manylion eich Sefydliad Amddiffyn Meddygol ar adeg y weithred honedig. Bydd Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC yn ymateb trwy e-bost neu dros y ffôn i drafod y mater ymhellach.

ii) Ffôn – ffoniwch linell gymorth Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg ar 029 2090 5454 yn ystod oriau gwaith arferol 9.00am–5.00pm o ddydd Llun i ddydd Gwener i siarad ag ymgynghorydd cyfreithiol am unrhyw faterion sy'n cael eu cynnwys yn y Cynllun.

b) Wrth anfon data cyfrinachol neu bersonol at Wasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC, dylech sicrhau bod dogfennau a / neu wybodaeth yn cael eu hanfon trwy un o'r llwybrau canlynol:



Lexcel Practice Management Standard Law Society Accredited
Customer Service Excellence
Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth i Gwsmeriaid
CSE

i) Yn electronig;

(1) Cyfrif e-bost GIG diogel;

(2) Ar gyfer cyfrif e-bost nad yw'n perthyn i’r GIG, gwnewch yn siŵr bod unrhyw ddogfennau wedi'u hamgryptio (wedi'u diogelu gan gyfrinair);

(3) Porth gwe diogel Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC (bydd angen mynediad at y rhyngrwyd) – cysylltwch â’r tîm i ofyn am fynediad;

(4) Porth Rhannu Ffeiliau’n Ddiogel GIG Cymru (sef MOVEit).

## 7) Hawliadau presennol yn trosglwyddo i Wasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC o Sefydliad Amddiffyn Meddygol

a) Os oes gennych hawliad sydd o fewn cwmpas y Cynllun ac sy'n cael ei drin ar hyn o bryd gan eich Sefydliad Amddiffyn Meddygol, dylech barhau i ohebu â'ch Sefydliad Amddiffyn Meddygol.

b) Bydd yr hawliad yn cael ei drosglwyddo i'r Cynllun yn awtomatig unwaith y bydd eich Sefydliad Amddiffyn Meddygol wedi trosglwyddo ei gyfrifoldeb am Atebolrwyddau Presennol. Bydd Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC yn cysylltu â chi cyn pen 5–10 diwrnod busnes ar ôl i hyn ddigwydd. Yn ogystal, byddwch yn derbyn manylion y cyfreithiwr yng Ngwasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC a fydd yn ymdrin â’r hawliad.

c) Bydd Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC yn anfon copi o Ganllawiau’r Cynllun i chi a byddant yn gofyn i chi gadarnhau eich bod yn eu derbyn. Unwaith y byddwch wedi derbyn Canllawiau’r Cynllun, bydd Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC yn dechrau gweithio ar yr hawliad.

d) Caiff yr hawliadau sydd yn nwylo MDDUS ar hyn o bryd eu trosglwyddo i’r Cynllun ar 30 Mehefin 2020. Caiff yr hawliadau sydd yn nwylo MPS ar hyn o bryd eu trosglwyddo i’r Cynllun ar 1 Ebrill 2021.



Lexcel Practice Management Standard Law Society Accredited
CSE Customer Service Excellence

e) Bydd Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC yn adolygu'r holl hawliadau a dderbynnir. Os yw cyfreithiwr allanol wedi cael cyfarwyddyd ynghylch eich hawliad, bydd Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC yn adolygu'r angen i gynnal y cyfarwyddyd hwn a gallent benderfynu cymryd yr hawliad drosodd ar ran y Cynllun. Fodd bynnag, ymgynghorir â chi ynghylch hyn.

## 8) Rhoi gwybod i Wasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC am hawliad cyn mis Ebrill 2019

a) Os nad yw eich Sefydliad Amddiffyn Meddygol wedi dod i gytundeb i drosglwyddo ei gyfrifoldebau ar gyfer Atebolrwyddau Presennol i Weinidogion Cymru, dylech roi gwybod iddynt am unrhyw hawliadau newydd.

b) Os yw eich Sefydliad Amddiffyn Meddygol wedi dod i gytundeb â Gweinidogion Cymru ac wedi trosglwyddo ei gyfrifoldebau ar gyfer Atebolrwyddau Presennol fel eu bod wedi'u hyswirio gan y Cynllun, dylech roi gwybod am hawliad a ddigwyddodd cyn 1 Ebrill 2019 i Wasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol.

c) Caiff hawliadau sydd gyda MDDUS ar hyn o bryd eu hyswirio gan y Cynllun o 30 Mehefin 2020. Caiff hawliadau sydd gyda MPS eu hyswirio gan y Cynllun o 1 Ebrill 2021. Dylai aelodau o MDU roi gwybod am yr holl hawliadau i MDU hyd nes bydd hysbysiad pellach.

d) Mae'n hanfodol eich bod yn darparu dogfennau a gwybodaeth mewn modd diogel er mwyn sicrhau y caiff data personol claf eu hamddiffyn. Wrth roi gwybod am hawliad i Wasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC, cwblhewch Ffurflen Gyswllt a Gwybodaeth y Cynllun Atebolrwyddau Presennol – gweler Atodiad A a, lle bo hynny'n bosibl, anfonwch y dogfennau canlynol atom:

i) Set gyflawn o gofnodion meddyg teulu'r claf;

ii) Llythyr Hawliad neu gais arall am iawndal gan y claf neu ei gyfreithwyr;



Lexcel Practice Management Standard Law Society Accredited
Customer Service Excellence CSE

iii) Ffurflen Gais, Manylion yr Hawliad – dogfennau llys sy’n cychwyn hawliad esgeulustod clinigol:

iv) Pob gohebiaeth gyda’r claf neu gyda’i gyfreithwyr;

v) Pob gohebiaeth sy'n ymwneud ag unrhyw gŵyn a wnaed gan y claf;

vi) Sylwadau ysgrifenedig, datganiadau tyst ac adroddiadau y gallech fod wedi eu paratoi o’r blaen, er enghraifft wrth baratoi ar gyfer ymateb i gŵyn, cwest neu wrandawiad rheoleiddiol sy’n ymwneud â’r digwyddiad perthnasol sydd, neu a allai fod, yn destun hawliad;

vii) Unrhyw dystiolaeth arbenigol annibynnol a ellid bod wedi ei derbyn o’r blaen, er enghraifft wrth baratoi ar gyfer cwest neu wrandawiad rheoleiddiol (os y’i darperir i chi gan eich Sefydliad Amddiffyn Meddygol);

viii) Nodiadau neu ddogfennau cysylltiedig o unrhyw gwest, gan gynnwys manylion am gasgliad y crwner (os y’u darperir i chi gan eich Sefydliad Amddiffyn Meddygol);

ix) Unrhyw Adroddiad Ymchwilio i Ddigwyddiad Difrifol neu unrhyw adroddiad arall am ddigwyddiad diogelwch claf;

x) Unrhyw ddogfennau a gynhyrchwyd o dan Gweithio i Wella.

e) Ni ddylid cynnwys y dogfennau a restrir yn ii–ix uchod yn nodiadau meddyg teulu’r claf. Dylid eu cadw ar wahân.

## 9) Beth fydd yn digwydd ar ôl cyflwyno hawliad i Wasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC?

a) Unwaith y bydd hawliad wedi’i gyflwyno i Wasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC, bydd angen ei asesu i bennu:

i) A ydych yn Berson Cymwys yn unol â’r Rheoliadau; ac

ii) A yw’r hawliad o fewn cwmpas y Cynllun.

b) Bydd Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC yn cysylltu â chi trwy e-bost neu dros y ffôn i gydnabod derbyn yr hawliad o fewn 2 ddiwrnod gwaith.

c) Bydd Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC yn cadarnhau o fewn 5–10 diwrnod gwaith a yw'r hawliad yn gymwys am indemniad o dan y Cynllun. Os oes oedi wrth wirio eich manylion gyda MDO, bydd Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC yn cysylltu â chi i esbonio'r oedi.

d) Unwaith y bydd y cwmpas a'r hawl wedi'u cadarnhau, gofynnir i chi gadarnhau eich bod yn cytuno â Chanllawiau'r Cynllun. Unwaith y byddwch wedi cadarnhau eich bod yn cytuno â Chanllawiau'r Cynllun, bydd cyfreithiwr penodedig yn cysylltu â chi ar adeg sy'n gyfleus i chi er mwyn cychwyn yr ymchwiliad.

e) Bydd Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC yn ceisio osgoi achosion llys ffurfiol lle bo hynny'n bosibl. Mae eich mewnbwn amserol yn hollbwysig er mwyn ymchwilio i'r hawliad a'i ddatrys. Gallai Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC ystyried argymell y broses Gweithio i Wella neu gyfryngu.

f) Caiff hawliadau eu rheoli yn unol â Chanllawiau Ymdrin â Hawliadau Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC.

g) Unwaith y cytunir ar benderfyniad, defnyddir yr hyn a ddysgwyd o'r digwyddiad, a gaiff ei gyflwyno'n ddienw, yn ogystal â digwyddiadau eraill tebyg iddo er mwyn gwella diogelwch ym maes Gofal Sylfaenol.

## 10) Ymdrin â Hawliadau / Gwasanaethau Cyfreithiol

a) Bydd Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC yn ymdrin â hawliadau o fewn y cwmpas yn unol â'u Canllawiau Ymdrin â Hawliadau.

b) Lle mae sawl parti ynghlwm, Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC fydd yn rheoli hawliad o'r fath, gan gynnwys cytuno ar unrhyw ddyraniad atebolrwydd, fel yr ystyrir yn briodol ganddynt er budd pennaf y Cynllun ac wrth ymgynghori'n llawn â Phersonau Cymwys.

c) Rhaid i Bersonau Cymwys gydweithio a darparu gwybodaeth, dogfennau a chymorth o'r fath i Wasanaethau Cyfreithiol a Risg yn ôl yr angen er mwyn caniatáu i Wasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC brosesu unrhyw hawliad yn y Cynllun.

d) Bydd Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC yn penodi bargyfreithwyr, cyfreithwyr allanol, cyfreithwyr costau, arbenigwyr ac unrhyw drydydd partïon eraill maent yn eu hystyried yn angenrheidiol i gynorthwyo â hawliad o dan y Cynllun. I'r graddau hynny, gallai Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC ymarfer hawliau neu bwerau contractiol neu unrhyw hawliau neu bwerau eraill Person Cymwys.

e) Bydd Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC yn gweithio gyda Phersonau Cymwys, byddant yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt a byddant yn ymgynghori â Phersonau Cymwys mewn perthynas â phenderfyniadau ynghylch hawliadau. Fodd bynnag, yn y pen draw, caiff penderfyniadau ynghylch hawliadau eu gwneud fel a ganlyn:

   i) Ar gyfer hawliadau ag amcangyfrif o hyd at £1 miliwn o iawndal, gan weithredwr y Cynllun (Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC) yn unol ag awdurdod a ddirprwywyd gan Weinidogion Cymru.

   ii) Ar gyfer hawliadau ag amcangyfrif o dros £1 miliwn o iawndal, gan Weinidogion Cymru.

f) Os nad yw Person Cymwys yn cytuno â phenderfyniad arfaethedig ynghylch hawliad, bydd ganddo'r opsiwn i dynnu'r hawliad o'r Cynllun. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd indemniad o dan y Cynllun yn dod i ben unwaith y bydd hawliad wedi'i dynnu. Caiff pob hawliad ei ystyried ar sail unigol.

g) Lle mae Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC yn darparu gwasanaethau ymgyfreitha, darperir y gwasanaethau hyn gan gyfreithwyr sydd wedi'u hawdurdodi gan yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr a/neu Weithredwyr Cyfreithiol a gaiff eu rheoleiddio gan Sefydliad Siartredig y Gweithredwyr Cyfreithiol i ddarparu gwasanaethau cyfreithiol neilltuedig yn unol â Deddf Gwasanaethau Cyfreithiol 2007. Caiff yr holl staff na chânt eu rheoleiddio (e.e. staff cyfreithiol iau, paragyfreithwyr ac ati) eu goruchwylio gan bersonau awdurdodedig

h) Mae gan gyfreithwyr, gweithredwyr cyfreithiol a staff a gyflogir gan Wasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC y fantais o feddu ar Indemniad y GIG trwy Ymddiriedolaeth GIG Felindre a'i haelodaeth o drefniadau Cronfa Risg Cymru ar gyfer unrhyw hawliadau sy'n cael eu dwyn yn eu herbyn ac sy'n codi o'r gwaith o weithredu'r Cynllun. Mae yswiriant digonol a phriodol ar waith mewn perthynas â'r gwasanaethau a ddarperir yn unol â'r Cynllun.

## 11) Gwrthdaro Buddiannau / Cyfrinachedd

a) Y Person Cymwys sy'n ceisio indemniad yn ôl disgresiwn y Cynllun fydd y parti a enwir mewn unrhyw ymgyfreitha.

b) Fodd bynnag, mae Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC yn cydnabod y bydd gwybodaeth am hawliadau cyfrinachol yn cael ei chasglu wrth weithredu'r Cynllun. Yn benodol, mae Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC yn cynrychioli cyrff GIG Cymru a allai fod yn gyd-ddiffynyddion i hawliad y gall Person Cymwys fod yn barti iddo hefyd. Er mwyn sicrhau bod y mesurau diogelwch priodol ar waith i fynd i'r afael â gwrthdaro buddiannau neu risgiau sylweddol o wrthdaro o'r fath;

   i) Bydd Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC yn sicrhau y bydd pob hawliad sy'n dod o fewn y Cynllun yn cael ei reoli yn eu Tîm Esgeulustod Clinigol Gofal Sylfaenol yn unig.

   ii) Bydd Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC yn rhoi mecanweithiau a mesurau diogelwch ar waith i sicrhau mai dim ond aelodau o'r Tîm Esgeulustod Clinigol Gofal Sylfaenol sy'n gallu cael mynediad at hawliadau sy'n dod o fewn y Cynllun.

   iii) Lle bo hynny'n briodol, gellir cyfarwyddo cyfreithwyr allanol yn ôl disgresiwn Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC.

c) Trwy geisio indemniad o dan y Cynllun, mae Personau Cymwys yn cydsynio i dimau eraill yng Ngwasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC sy'n cynrychioli cyrff GIG Cymru a all fod yn gyd-ddiffynyddion yn yr un hawliad yn unol â'r trefniadau a nodir yn 11 b (i) - (iii) uchod .

d) Pan fydd hawliad yn cynnwys sawl Person Cymwys o wahanol sefydliadau amddiffyn meddygol, mae'r Personau Cymwys hynny yn cydsynio ac yn cytuno i rannu gwybodaeth gyfrinachol fel y gall Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC gynnal yr hawliad mor effeithlon â phosibl ac mewn ymgynghoriad â'r holl Bersonau Cymwys i sicrhau bod yr holl fuddiannau'n cael eu hystyried yn llawn.

## 12) Adolygiadau a Chwynion

a) Cwmpas / Penderfyniadau Person Cymwys;

i) Os cawsoch eich hysbysu nad ydych yn cwrdd â'r meini prawf Person Cymwys neu os yw'r hawliad yr ydych wedi'i hysbysu wedi'i ystyried y tu allan i'w gwmpas (h.y. nid yw'n gyfystyr ag Atebolrwydd Presennol), gallwch ofyn i'r penderfyniad hwn gael ei ailystyried trwy ysgrifennu at y Rheolwr Tîm Esgeulustod Clinigol Gofal Sylfaenol (ELS@Wales.nhs.uk) cyn pen 10 diwrnod gwaith i gael gwybod.

ii) Bydd eich cais yn cael ei adolygu ac ymatebir iddo cyn pen 10 diwrnod gwaith.

iii) Os ydych yn parhau i fod yn anfodlon, gallwch ofyn am gyfeirio'ch achos at Gyfarwyddwr / Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC i gael adolygiad a phenderfyniad pellach. Dylai'r cais hwn gael ei wneud cyn pen 10 diwrnod gwaith i’r ymateb i'r cais cychwynnol am ailystyriaeth.

iv) Bydd ymateb terfynol yn cael ei ddarparu cyn pen 10 diwrnod gwaith i Wasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC dderbyn y cais i gyfeirio'r achos at y Cyfarwyddwr / Dirprwy Gyfarwyddwr.

b) Cwynion yn ymwneud â lefelau gwasanaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC;

i) Os ydych chi'n anfodlon ag unrhyw agwedd ar weithrediad y Cynllun gan bersonél Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC, e-

bostiwch eich pryderon at ELS@wales.nhs.uk. Ymchwilir i'ch pryder a darperir ymateb i chi cyn pen 20 diwrnod gwaith i Wasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC dderbyn eich e-bost.

ii) Os ydych yn parhau i fod yn anfodlon ar ôl derbyn yr ymateb cychwynnol, gallwch ofyn am gyfeirio'ch cwyn at Gyfarwyddwr / Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC i'w benderfynu. Dylai'r cais hwn gael ei wneud cyn pen 10 diwrnod gwaith i’r ymateb i’r cwyn cyntaf.

iii) Bydd ymateb terfynol yn cael ei ddarparu cyn pen 10 diwrnod gwaith i Wasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC dderbyn y cais i gyfeirio'r achos at y Cyfarwyddwr / Dirprwy Gyfarwyddwr.

iv) Yn olaf, os ydych wedi disbyddu proses gwynion fewnol Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC a nodwyd uchod, nid ydych yn ystyried bod eich cwyn wedi'i datrys o hyd, gallwch gyfeirio'ch cwyn at yr Ombwdsmon Cyfreithiol;

Legal Ombudsman
PO Box 6806
Wolverhampton
WV1 9WJ

## 13) Diogelu Data

a) Bydd Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC bob amser yn cydymffurfio â darpariaethau Deddf Diogelu Data 2018 (gan ymgorffori'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data). Gellir gweld ein Hysbysiad Preifatrwydd yn; http://www.nwssp.wales.nhs.uk/privacy-notice-1

## 14) Rheoli cwynion o dan Gweithio i Wella (ar ôl trosglwyddo sefydliad amddiffyn meddygol i Wasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC)

a) Yng Nghymru, mae pob pryder (unrhyw gŵyn neu hysbysiad am ddigwyddiad yn ymwneud â diogelwch claf) yn cael ei reoli o dan Gweithio i Wella.

b) Bydd gan Bractisiau Meddygol Cyffredinol weithdrefnau a phrosesau eisoes ar waith ar gyfer delio â phryder Gweithio i Wella. Bydd y gweithdrefnau hynny yn seiliedig ar Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011 a Chanllawiau "Gweithio i Wella" Fersiwn 3 (Tachwedd 2013).

c) Disgwylir i Bractisiau Meddygol Cyffredinol barhau i ymdrin â phryderon ac ymchwilio iddynt yn unol â'r broses Gweithio i Wella. Gall y Practis Meddygol Cyffredinol barhau i ofyn i'r Bwrdd Iechyd am gymorth.

d) Gall Personau Cymwys ofyn am arweiniad a chymorth ynghylch cwynion cyn 1 Ebrill 2019 gan eu sefydliadau amddiffyn meddygol neu Wasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC. Lle mae'r gŵyn yn debygol o ddod o fewn cwmpas y Cynllun, mae Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC yn hapus i adolygu fersiwn drafft o ymateb i gŵyn.

e) Nid yw Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC yn ei gwneud yn ofynnol i Bersonau Cymwys gysylltu â nhw mewn perthynas â chwynion arferol cyn 1 Ebrill 2019, fodd bynnag, lle mae'r claf neu'r perthynas yn cwyno bod y driniaeth a dderbyniwyd wedi achosi niwed neu farwolaeth, dylid hysbysu hyn i Wasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC yn ddi-oed.

f) Rhaid i Bersonau Cymwys gysylltu â Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC cyn cyhoeddi unrhyw lythyr ymateb i gŵyn y gellid yn rhesymol ei ddehongli fel addefiad o atebolrwydd (gan gynnwys unrhyw cyfaddefiad o dorri dyletswydd yn unig) at ddibenion y Cynllun neu gynnal cyfarfod neu gymryd unrhyw gam a allai arwain at ganlyniad o'r fath mewn perthynas â hawliad (p'un a yw'n cael ei wneud neu wrth fyfyrio) yn dod o fewn cwmpas y Cynllun.

g) Efallai y bydd angen cyngor ar y Person Cymwys gan ei sefydliad amddiffyn meddygol perthnasol. Er enghraifft, os oes cwest yn ogystal â chwyn neu os oes materion rheoleiddio posibl.

h) Nid yw cwynion nad ydynt yn rhai clinigol (er enghraifft cwyn bod aelod o staff yn anghwrtais i glaf) yn cael eu cynnwys yn y Cynllun.



Lexcel Practice Management Standard Law Society Accredited
Customer Service Excellence
Rhagoriaeth Mewn Gwasanaeth i Gwsmeriaid
CSE

## 15) Defnyddio Gweithio i Wella i Reoli Hawliadau (ar ôl trosglwyddo sefydliad amddiffyn meddygol i Wasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC)

a) Er bod Practisiau Meddygol Cyffredinol yn ddarostyngedig i'r gofynion o dan y Rheoliadau Gweithio i Wella, nid oes unrhyw rwymedigaeth ar Bractisiau Meddygol Cyffredinol i ddelio â hawliadau am iawndal ariannol o dan y drefn Gweithio i Wella. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd amgylchiadau lle bydd hawliad am iawndal ariannol yn werth £25,000 neu lai o dan y Cynllun ar gyfer Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol (ac eithrio'r Uned Adfer Iawndal a ffioedd a chostau'r GIG). Mewn achosion o'r fath, bydd Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC yn ystyried a yw'n briodol cynnig cymryd rhan yn y Broses Unioni yn wirfoddol ar gyfer hawliadau o'r fath.

b) Mae'r broses yn seiliedig ar Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011 a Chanllawiau "Gweithio i Wella" Fersiwn 3 (Tachwedd 2013).

c) Y prif fanteision o gymryd rhan yn y Broses Gweithio i Wella / y Broses Unioni yw y gall yr hawliad gael ei ddatrys yn gynt, a bydd costau'r hawlydd yn gyfyngedig i gostau sefydlog (yn hytrach na chostau safonol os eir ar drywydd hawliad sifil).

d) Ar hyn o bryd, mae costau sefydlog adferadwy yn cael eu hystyried ar gyfer ymgyfreitha esgeulustod clinigol yn Lloegr a Chymru. Bydd y ddogfen hon yn cael ei diweddaru unwaith y cyhoeddir y drefn.



Lexcel Practice Management Standard Law Society Accredited
Customer Service Excellence
Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth i Gwsmeriaid
CSE